

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Adroddiad ar waith craffu'r pwyllgor ar Fesur Cynllunio'r Deyrnas Unedig: y goblygiadau i Gymru

Cyflwyniad

1. Cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Mesur Cynllunio ar 27 Tachwedd 2007. Diben y Mesur yw symleiddio a gwella'r system gynllunio. Mae'r Mesur yn cynnig sefydlu Comisiwn Cynllunio Seilwaith (CCS) annibynnol i drafod ceisiadau ar gyfer prosiectau seilwaith 'cenedlaethol eu harwyddocâd' ym meysydd ynni, trafniadaeth, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff. Yng Nghymru, bydd y CCS yn gwneud penderfyniadau ynghylch prosiectau cenedlaethol eu harwyddocâd mewn achosion lle na ddatganolwyd y cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru eisoes.

2. Mae'r Mesur hefyd yn cyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol, sydd â'r nod o sicrhau bod y costau a geir yn sgil darparu seilwaith i gynorthwyo wrth ddatblygu ardal yn cael eu talu, naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl, gan y tiffeddianwyr hynny sydd ar eu hennill am fod gwerth y tir wedi cynyddu.

3. Cyn cyflwyno'r Mesur, cyhoeddwyd y byddai pwerau fframwaith newydd sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu lleol a Chynllun Gofodol Cymru yn cael eu cynnwys yn y Mesur. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ar wyneb y Mesur a disgwylir y byddant yn cael eu cynnwys yn ystod Cam y Pwyllgor Seneddol.

4. Cytunodd y pwyllgor mai priodol fyddai estyn gwahoddiad i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i sesiwn dystiolaeth ar Fesur Cynllunio'r Deyrnas Unedig er mwyn caniatáu i'r Aelodau geisio eglurhad ynghylch y goblygiadau i Gymru. Gan fod y Mesur hefyd yn cael ei drafod ar yr un diwrnod yn San Steffan, nid oedd Gweinidog y Deyrnas Unedig a'r Tîm y Mesur ar gael i fynychu'r sesiwn dystiolaeth. Er mwyn cwblhau'r gwaith o fewn terfynau amser penodedig ar gyfer craffu ar y Mesur yn San Steffan, cyfyngwyd trafodaeth y pwyllgor ar y Mesur i un sesiwn dystiolaeth, a gynhaliwyd ddydd Iau 24 Ionawr 2008.

Materion a godwyd yn y dystiolaeth

5. Agorodd y Gweinidog y sesiwn dystiolaeth drwy egluro mai amddiffyn y setliad datganoli oedd ei phrif nod wrth drafod cynnwys y Mesur o ran ei effaith ar Gymru â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a dywedodd ei bod yn fodlon bod hyn wedi'i sicrhau. Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai'n parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth i'r Mesur fynd yn ei flaen i sicrhau bod y ddeddfwriaeth derfynol yn adlewyrchu buddiannau Cymru.

6. Wrth gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog, gofynnodd y pwyllgor am fwy o fanylion ac am eglurhad ar y materion canlynol:

- Manylion ynghylch sut y byddai'r symleiddio a'r gwella arfaethedig ar y system gynllunio yng Nghymru a Lloegr yn gweithredu'n ymarferol;
- Cylch gwaith ac aelodaeth y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (CCS), a'r diffyg atebolrwydd democrataidd a fydd, yn ôl pob golwg, yn ei benderfyniadau;
- Yr angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru feddu ar bwerau penderfynu ar gyfer prosiectau mawr cynhyrchu trydan a leolir yng Nghymru, er mwyn gallu cynllunio'i chyflenwad ynni ei hun a'i ddsbarthu;
- Yr angen i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n ymgynghorwyr statudol ar ddatganiadau polisi cenedlaethol a gynhyrchir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac sy'n berthnasol i Gymru, er mwyn sicrhau bod polisiau Cymru, yn y presennol ac i'r dyfodol, yn cael eu hadlewyrchu;
- Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cynllun Gofodol Cymru a chynlluniau datblygu lleol a'r rhesymau dros beidio â chynnwys yn y Mesur y Pwerau Fframwaith a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- Diben yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, gweithredu honno yng Nghymru, a'i defnydd yn gysylltiedig â chytundebau Adran 106;
- Yr effeithiau posibl y byddai cyflwyno'r ardoll yn eu cael ar dai fforddiadwy a'r angen am gysondeb wrth gasglu'r ardoll ar draws parthau'r awdurdodau lleol;
- Y rheswm pam nad yw'r Mesur yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i gymryd camau ar y newid yn yr hinsawdd wrth baratoi eu cynlluniau datblygu lleol, ac eto'n gosod y cyfryw ddyletswyddau yn Lloegr;
- Tebygolrwydd cyflwyno yng Nghymru unrhyw newidiadau i'r gwaith o symleiddio'r system gynllunio a wneir yn Lloegr ac i amserlenni'r cyflwyno hwnnw;
- Gweithredu'r drefn apelio arfaethedig.

7. Cynigiodd y Gweinidog gyhoeddi datganiadau Cabinet pellach a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch unrhyw newidiadau sylweddol i'r Mesur, wrth iddo fynd yn ei flaen drwy'r broses Seneddol.

Argymhellion

8. Mae'r pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddiogelu'r setliad datganoli o fewn cwmpas Mesur Cynllunio'r Deyrnas Unedig ac yn ei chefnogi yn ei thrafodaethau sy'n parhau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch agweddau penodol ar y Mesur. Wrth wneud hyn, mae'r pwyllgor yn gwneud nifer o argymhellion i'w chefnogi yn y gwaith.

Argymhelliad 1: Mae'r pwyllgor yn gadarn ei gred y byddai'r cynigion i sefydlu Comisiwn Cynllunio Seilwaith annibynnol (CCS) yn arwain at ddileu atebolrwydd democrataidd o'r broses gynllunio. Mae'r pwyllgor yn pryderu'n benodol bod creu corff anetholedig o arbenigwyr yn groes i bolisi a sefydlwyd gan Lywodraeth

Cynulliad Cymru o leihau nifer y cyfryw gyrff. **Felly, mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflwyno cais i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sef eithrio Cymru o gylch gwaith y Comisiwn Cynllunio Seilwaith er mwyn cadw atebolrwydd democrataidd ym mhob rhan o'r broses gynllunio yng Nghymru.**

Argymhelliad 2: Mae'r pwyllgor yn cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru'n llwyr yn ei barn y dylai gael pwerau penderfynu ar gyfer prosiectau ynni mawr a leolir yng Nghymru, a hynny er mwyn cynllunio'i chyflenwad ynni ei hun a'i ddsbarthu. Mae'n cefnogi barn y Gweinidog mai anghysondeb yw peidio â datganoli cyfrifoldeb cynllunio am brosiectau o'r fath. **Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynyddu ei thrafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda'r bwriad o sicrhau diwygio'r Mesur mewn modd a fyddai'n caniatáu datganoli'r pŵer sylweddol hwn i wneud penderfyniadau.**

Argymhelliad 3: Yr oedd y pwyllgor yn pryderu na nodir yn y Mesur fod Gweinidogion Cymru yn ymgynghorwyr statudol ar ddatganiadau polisi perthnasol ac y gallai hynny wanio polisiâu presennol Cymru a rhai'r dyfodol. **Mae'r pwyllgor felly'n argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno gwelliant i'r Mesur er mwyn gwneud Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgynghorydd statudol ar ddatganiadau polisi Prydain a fydd yn effeithio ar Gymru.**

Argymhelliad 4: Mae'r pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw welliannau sylweddol i'r Mesur. Mae'r pwyllgor yn siomedig fodd bynnag nad oedd, oherwydd diffyg manylion yn y Mesur am nifer o ddarpariaethau, yn gallu trafod yr effaith a gâi pob agwedd ar y Mesur ar Gymru a chyfrannu'n llawn yn y broses seneddol ar y mater. **Mae'r pwyllgor felly'n argymhell cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru'n llawn wrth ddatblygu manylion yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, cyn diwygio'r Mesur na chyflwyno rheoliadau.**

Argymhelliad 5: Mae'r pwyllgor yn mynegi pryder cyffredinol ynghylch safle Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn proses deddfwriaethol y Deyrnas Unedig. Mae'r pwyllgor yn pryderu'n benodol am nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei chynnwys yng nghyfnod cynnar datblygu deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a bod ei dylanwad felly'n gyfyng. **Mae'r pwyllgor yn argymhell felly bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i adolygu eu gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ran yn natblygiad cynnar pob deddfwriaeth sydd yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn gyfan.**

Argymhelliad 6: Mae'r pwyllgor yn cefnogi'n llawn fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r Mesur o ran Cynllun Gofodol Cymru a chynlluniau datblygu lleol. **Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i drafod y mater hwn â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y pwerau gwneud Mesur Cynulliad yn cael eu hychwanegu at y Mesur, tra'n sicrhau bod pwerau awdurdodau lleol yn y broses gynllunio yn cael eu diogelu.**

Argymhelliad 7: Clywodd y pwyllgor gan y Gweinidog ei bod hi'n debygol y bydd y diwygiadau pellach a gynigir i system cynllunio gwlad a thref ar gyfer Lloegr yn

cael eu cyflwyno yng Nghymru hefyd, gan roi i'r Gweinidog yng Nghymru'r pŵer i gychwyn y darpariaethau hyn fel y gwêl yn dda ac yn amodol ar ymgynghori pellach yng Nghymru. **Mae'r pwyllgor felly'n argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i ofyn am gynnwys y pwerau cychwyn angenrheidiol yn y Mesur a'i bod yn ymgynghori ymhellach cyn cyflwyno'r un o'r diwygiadau hyn yng Nghymru.**

Mick Bates AC,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cynaliadwyedd